**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr GIG Cymru**

**Director General Health, Social Care & Early Years Group / NHS Wales Chief Executive**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

At: Brif Weithredwyr Bwrdd Iechyd GIG Cymru

Ein Cyf: JP/RD/SB

26 Mawrth 2025

Annwyl Gyfeillion

**Canllawiau ar gyfer datblygu modelau Gwasanaeth Cynhwysiant lleol**

Mae gan Cymru Iachach uchelgais o greu cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol.

Y garreg filltir genedlaethol ar gyfer disgwyliad oes iach yw cynyddu disgwyliad oes iach oedolion a lleihau'r bwlch rhwng disgwyliad oes iach y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig o leiaf 15% erbyn 2050. Fodd bynnag, mae anghydraddoldebau mewn disgwyliad oes a marwolaethau yn parhau i fod yn eang ac, i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas, mae'r disgwyliad oes yn sylweddol is, gyda llawer yn byw mewn iechyd gwael am flynyddoedd lawer.

Trwy ganolbwyntio ar ddeall a gwella iechyd ar gyfer cymunedau, mae'n bwysig ein bod ni'n deall anghenion ein dinasyddion mwyaf agored i niwed a bod pob gwasanaeth yn gweithio gyda'i gilydd i gynllunio atebion di-dor sydd wedi'u teilwra i anghenion unigolion. Dylai'r datblygiadau hyn fod yn gymesur â maint a chymhlethdod anghenion lleol.

Rhaid i gynlluniau strategol fynegi'r dull o leihau annhegwch yn glir, a gwella profiad byw pobl agored i niwed i fodloni'r Ddyletswydd Ansawdd a Thegwch [Y ddyletswydd o ansawdd mewn gofal iechyd | LLYWODRAETH. CYMRU]

O dan y Cynllun Tymor Canolig Integredig/Canllawiau Cynllunio Technegol GIG Cymru 2025/28, mae disgwyl i sefydliadau'r GIG ddatblygu cynlluniau sy'n dangos y canlynol:

- Ymrwymiad clir a chryf ar lefel bwrdd i atal anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â nhw yn seiliedig ar y 5 ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (hirdymor, atal, cydweithio, integreiddio a chynnwys) ac ymyriadau Gwerth mewn Iechyd.
- Datblygu Gwasanaethau Iechyd Cynhwysiant i ddiwallu anghenion grwpiau agored i niwed.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Judith.Paget001@gov.wales
Gwefan ● website: www.gov.wales

Mae adnoddau wedi'u datblygu i gynorthwyo Byrddau Iechyd i arwain y gwaith hwn, gan annog a chefnogi cydweithredu lleol i adeiladu trefniadau cynllunio mewn clystyrau sy'n canolbwyntio ar y gymuned, a darparu iechyd a gofal sy'n cynnwys anghenion yr unigolion mwyaf agored i niwed.


Cymorth ac Adnoddau Cynllunio  - Gofal Sylfaenol Un

Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

1. Offeryn Cynllunio ar gyfer Iechyd Cynhwysiant
2. Canllawiau Datblygu Gwasanaethau Cynhwysiant
3. Enghreifftiau o arferion da

Mae'r Matrics Aeddfedrwydd ar gyfer Gweithio mewn Clystyrau hefyd yn disgrifio sut y gellir datblygu'r gwaith hwn. Bydd darparu gwasanaethau mwy effeithiol i grwpiau agored i niwed yn gwella canlyniadau, lleihau annhegwch a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Mae'r rhain yn flaenoriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro trwy gyfarfodydd Ansawdd, Cynllunio a Chyflawni Integredig ac adolygiadau Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

Yn Gywir



**Judith Paget CBE**